

WARRINGTON, WILLIAM (1735-1824), hanesydd a dramodydd

Enw: William Warrington
Dyddiad geni: 1735
Dyddiad marw: 1824
Priod: Dorothy Warrington (née Lever)
Plentyn: Dorothy La Grange (née Warrington)
Rhiant: Elizabeth Warrington (née Thornhill)
Rhiant: George Warrington
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: hanesydd a dramodydd
Maes gweithgaredd: Hanes a Diwylliant; Llenyddiaeth ac Ysgrifennu
Awdur: Gerald Morgan

Ganwyd William Warrington yn Brynyffynnon, Wrecsam yn 1735, y pumed o wyth o blant George Warrington (1695-1770) a'i wraig Elizabeth (ganwyd Thornhill, 1706-1788). Mân uchelwyr o sir Gaerhirfryn oedd ei dad a'i fam. Ni wyddys ym mhle y cafodd ei addysg. Priododd Dorothy Lever, a bu iddynt un ferch, Dorothy, a briododd James Brasier La Grange o Westminster ac a fu farw yn 1794 yn 31 oed.

Ceir cofnod bod William Warrington yn byw yng Nghaer yn 1755. Yn 1775 fe'i disgrifir fel 'Wm. Warrington Esq. of Clapham', ac mewn dogfen a arwyddwyd gan ei wraig yn 1788 fel 'William Warrington of Woodford, Essex - Clerk'. Cafodd ei ordeinio gan Esgob Llanelwys yn 1784, ac yn Chwefror 1786 daeth yn gaplan i'r gwleidydd William Ponsonby, ail iarll Bessborough (1704-1793). Mae'n debyg mai Bessborough a sicrhodd iddo fywoliaeth Old Windsor yn Berkshire, lle penodwyd ef yn 1789. Mae cofeb ar fur yr eglwys i'w wraig, a fu farw yn 1806, ac mae arysgrif ar feddrod y teulu yn nodi dyddiadau marw yr holl aelodau, gan gynnwys y ferch, yr wyres a dau orwyr. Cadwyd ei ewyllys ymhlith cofnodion Caer-gaint. Warrington yw awdur dwy ddrama anghofiedig, [The Cambrian Hero, or Llewelyn the Great](#) (?1803) ac *Alphonso King of Castile, A Spanish Tragedy* (1813). Dyfynnir cerdd o'i waith â'r teitl 'On Old Windsor Church-yard' yn [John Evans](#), *An Excursion to Windsor, in July 1810* (1817), tt. 345-6.

Ei brif waith yw *The History of Wales*, a gyhoeddwyd yn Llundain gan Joseph Johnson yn 1786, gyda chyflwyniad i William, Dug Devonshire (1748-1811). Cyhoeddwyd argraffiadau eraill yn 1788, 1791, 1805 a 1823. Mae'r ail argraffiad yn cynnwys dau fap gan [William Owen \(Pughe\)](#), y naill yn dangos rhaniadau canoloesol Cymru a'r llall o Gymru fodern. Ymddengys fod Warrington wedi cael ei gyflwyno i [Owen](#) gan [Iolo Morganwg](#), y gwyddys iddo ohebu ag ef (er na roesodd unrhyw lythyrâu rhyngddynt).

Amlygir cydymdeimlad Warrington â'i bwnc yn y rhagair i'w *History*, sy'n gorffen: '[T]he author thinks it necessary to declare that he is an Englishman; and whatever preponderancy may be discovered in this work to the side of the Welsh, it is neither the partiality of an author to his subject, nor the prejudice of a native; but the voluntary tribute of justice and humanity to the cause of injured liberty.' Mae'r gwaith 628 tudalen yn dechrau gyda chanllaw i ynganiad geiriau Cymraeg. Cyfeirir mewn troednodiadau at ffynonellau printiedig niferus, ond ni roddir sylw i [Sieffre o Fynwy](#) a'i ffantasiau. Yn gyffredinol mae hon yn astudiaeth bwyllog, yn cwmpasu'r canrifoedd rhwng goresgyniad y Rhufeiniaid a gwrthryfel 1294-5. Er nad oes llyfryddiaeth ynddo, mae'r talfyriadau yn y nodiadau yn hawdd eu hadnabod ac yn eang eu rychwant. Yr unig beth tywyll yw'r cyfeiriadau at Welsh Chron, ond dengys y rhifau tudalen ei fod yn dyfynnu o gopi o *The historie of Cambria* (1584), cyfrol y mae ei chrynswth yn gyfieithiad o Brut y Tywysogion. Hyd nes i Warrington gyhoeddi ei waith, y gyfrol safonol ar hanes Cymru oedd eiddo [William Wynne](#), *The History of Wales* (1697 ac adargraffiadau), nad oedd yn y bôn ond yn ailwampiad o gyfrol 1584.

Bu William Warrington farw ar 31 Ionawr 1824, yn 89 oed, ac fe'i claddwyd ar 9 Chwefror yn Old Windsor.

Awdur

Gerald Morgan

Ffynonellau

G. J. Williams, *Iolo Morganwg* (Caerdydd 1956), pp. 424-5

Geraint H. Jenkins, Ffion Mair Jones and David Ceri Jones (eds), *The Correspondence of Iolo Morganwg* (Cardiff 2007), p. 267

Iolo a Menai Roberts, 'William Owen (Pughe) y Mapiwr', *Cylchgrawn Llyfrgell Genedlaethol Cymru*, 30.3 (haf 1998), 295-322

[rootsweb](#)

[Clergy of the Church of England database](#)

National Archives, PROB 11/1739/157

Gwefan y [Berkshire Family History Society](#)

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: [Q28416510](#)

Dyddiad cyhoeddi: 2017-01-18

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/> 

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

